# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Ty Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 24 Mai 2012** |
| Amser: | **12:50 – 14:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_500000_24_05_2012&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Jocelyn Davies (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Ann Jones**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones** |
| Tystion: | **Bruce West, Pennaeth Cyllid Strategol, Cyngor Argyll a Butel**<br>**Ian Black, Pennaeth Cyllid a TG, Cyngor East Dunbartonshire**<br>**Jon Rae, CLLC**<br>**Will McLean, Arweinydd Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol Cyngor Sir Fynwy**<br>**Peter Davies, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Sir Fynwy**<br>**Angela Scott, y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth** |
| Staff y Pwyllgor: | **Helen Finlayson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Martin Jennings (Ymchwilydd)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Bruce West, Pennaeth Cyllid Strategol, Cyngor Argyll a Bute, ac Ian Black, Pennaeth Cyllid a TG, Cyngor East Dunbartonshire, i'r cyfarfod drwy gynhadledd fideo.

2.2 Bu aelodau'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

2.3 Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i ysgrifennu at y tystion i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth am gwestiynau nas gofynnwyd yn y cyfarfod.

## 3. Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Will McLean, Arweinydd Ymgysylltu a Phartneriaethau Strategol Cyngor Sir Fynwy; a Peter Davies, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Sir Fynwy, i'r cyfarfod.

3.2 Bu aelodau'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

3.3 Cytunodd aelodau'r Pwyllgor i ysgrifennu at y tystion i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth am gwestiynau nas gofynnwyd yn y cyfarfod.

## 4. Papurau i'w nodi

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ohebiaeth a gafwyd gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, a chytunodd yr Aelodau i ymateb i'r llythyr, gan ofyn am eglurder ar y materion a ganlyn:

- y graddau y mae pwerau benthyg wedi'u cysylltu â phwerau trethu; ac
- effaith trosglwyddo'r risg mewn perthynas â phwerau codi trethi, ac yn benodol, yr effaith y gallai pwerau codi trethi ei gael ar bwerau benthyg yn y dyfodol.

4.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2012.

## 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 6.

## 6. Trafod y dystiolaeth - Cyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei ymchwiliad i Gyllid Datganoledig: Pwerau Benthyg a Dulliau Arloesol o Ddefnyddio Arian Cyfalaf.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod